# Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Grwpiau  Awdurdodau Perthnasol Cymru Diweddariad 2019-20



# Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Cymru Diweddariad 2019/20

## Cyflwyniad

Sefydlwyd y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig i helpu i ddarparu cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar draws y rhwydwaith ohonynt yng Nghymru. Ers hynny, mae'r grŵp wedi cynhyrchu Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru. Mae'r fframwaith yn cyflwyno strwythur ar gyfer gwella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru am y cyfnod 2018-23. Yn dilyn hyn, cynhyrchwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer 2019-20. Mae'r cynllun yn nodi'r camau blaenoriaeth a nodwyd gan y Grŵp Llywio i gynnal a gwella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ledled Cymru.

Cytunodd y Grŵp Llywio ar Reoli fod cynnal cysylltiadau rhwng y rhwydwaith a'r lefel leol yn bwysig. Felly, cafodd cam gweithredu 16 (cam gweithredu 20 gynt) ei gynnwys yn y cynllun gweithredu:

‘Cynnal cysylltiadau rhwng Cynllun Gweithredu'r Rhwydwaith a chamau gweithredu a gytunwyd yn lleol, pan fo'r rhain yn bodoli, a chefnogi'r gwaith o edrych am gyfleoedd ariannu’.

## Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Grwpiau Awdurdodau Perthnasol

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â phump o'r 134 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru, fodd bynnag maent yn cynrychioli'r Ardaloedd mwy ac felly maent yn cwmpasu cyfran fawr o rwydwaith Cymru o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae llawer o'r Ardaloedd llai fel SoDdGA a safleoedd RAMSAR yn dod o fewn ffiniau'r pum safle ac yn helpu i'w tanategu. Bydd prosiectau a gynhelir yn y pum Ardal hon yn ystyried gofynion yr Ardaloedd Gwarchodedig llai sy'n rhan ohonynt ym mhob achos yn ogystal ag ystyriaethau eraill e.e. Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Bydd rhai o'r prosiectau yn helpu i reoli'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig newydd ar gyfer Llamhidyddion yn ogystal â safleoedd sy'n bodoli eisoes heb Grŵp Awdurdodau Perthnasol e.e. ACA Afon Menai a Bae Conwy. Nodir llawer o'r prosiectau a amlinellir yn yr adroddiad hwn fel camau gweithredu lleol yng Nghynllun Gweithredu Rhwydwaith 2019-20 Atodiad 1.

Y Grwpiau Awdurdodau Perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn:

- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Pen Llŷn a’r Sarnau
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Bae Ceredigion
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Sir Benfro Forol
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Bae ac Aberoedd Caerfyrddin
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Aber Afon Hafren

## Gwaith arall

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y prosiectau a gynhaliwyd gan Grwpiau Awdurdodau Perthnasol a swyddogion safle'r Ardaloedd a restrir uchod, a fydd yn helpu i wella neu gynnal cyflwr safleoedd. Fodd bynnag, mae llawer o dasgau'n cael eu cyflawni gan y Grwpiau a swyddogion safle sy'n hanfodol er mwyn rheoli safleoedd nad ydynt yn dod o dan brosiectau unigol. Maent yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cynnal y Grŵp Awdurdodau Perthnasol a'r Grŵp Cyswllt
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Codi ymwybyddiaeth ac addysg
- Chwilio am gyllid a'i sicrhau
- Pwynt cyswllt ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig
- Darparu cyngor a gwybodaeth
- Gwaith cyswllt a phartneriaeth
- Gweithio gyda swyddogion safleoedd eraill i sicrhau cysondeb ar draws y rhwydwaith
- Aelodaeth o grwpiau amrywiol er mwyn sicrhau bod Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu cynrychioli a hyrwyddo cydweithio e.e. Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol ac ati.
- Cyfrannu at becynnau gwaith cenedlaethol e.e. Prosiect Gweithgareddau na ellir eu Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru, Partneriaeth Moroedd Glân Cymru, cyswllt Ardaloedd Morol Gwarchodedig y DU ac ati.

Mae'r cyllid ar gyfer swyddogion safle Ardaloedd Morol Gwarchodedig wedi amrywio'n fawr dros y blynyddoedd. Adlewyrchir hyn yn nifer y diwrnodau'r wythnos y mae gan bob safle swyddog safle penodedig. Mae'n amrywio o un i bum diwrnod yr wythnos, gweler tabl 1. Mae hyn yn ei dro yn adlewyrchu faint o waith sy'n bosibl ar y safle.

| Ardal Forol Warchodedig | Nifer y diwrnodau'r wythnos |
|---|---|
| ACA Pen Llŷn a'r Sarnau | 5 |
| ACA Bae Ceredigion | 4 |
| ACA Sir Benfro Forol | 2.5 |
| Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin | 1 |
| Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren | 2 |

Tabl 1: Nifer y diwrnodau'r wythnos mae gan bob Ardal Forol Warchodedig swyddog safle penodedig

## Egwyddorion rheoli

Datblygodd y Grŵp Llywio ar Reoli'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig bum egwyddor rheoli i lywio'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer rheoli'r rhwydwaith. Mae pob cam gweithredu yn yr adroddiad hwn yn cyfrannu at o leiaf un o'r pum egwyddor rheoli. Mae camau gweithredu lleol yn cyfrannu'n bennaf at egwyddor rheoli 5, rheolaeth ehangach. Ond mae llawer yn cyfrannu at egwyddorion rheoli eraill hefyd.

| **Egwyddor Rheoli** |
|---|


| |
|---|
| **Egwyddor Rheoli 1**: Cynllunio Strategol |
| **Egwyddor Rheoli 2**: Rheoleiddio, caniatáu datblygiadau a phrosesau asesu |
| **Egwyddor Rheoli 3**: Cyngor ac arweiniad ar reoli |
| **Egwyddor Rheoli 4**: Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a'r bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn llywio gwaith rheoli |
| **Egwyddor Rheoli 5**: Rheolaeth ehangach |

Tabl 2: Egwyddorion rheoli

# Grŵp Awdurdod Perthnasol ACA Pen Llŷn a'r Sarnau – diweddariad 2019/20


Alison Palmer Hargrave

## Tir a Môr Llŷn / O'r Mynydd i'r Môr




Sicrhawyd cyllid ar gyfer dau brosiect lefel dalgylch o fewn ardal Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae Tir a Môr Llŷn yn cwmpasu Penrhyn Llŷn ac mae wedi sicrhau tair blynedd o gyllid o Gronfeydd y Cynllun Rheoli Cynaliadwy. Mae O'r Mynydd i'r Môr yn cwmpasu traean isaf yr ACA ac mae wedi sicrhau pum mlynedd o gyllid drwy'r Endangered Landscapes Fund. Nod y prosiectau hyn yw rheoli amgylcheddau morol, dŵr croyw a daearol gyda'i gilydd. Y Swyddog ACA yw'r arweinydd morol ar gyfer y naill brosiect a'r llall. Cyflawnir llawer o'r prosiectau isod o dan un o'r prosiectau hyn neu o dan y ddau. Yn ogystal â chyflawni prosiectau, treuliwyd llawer o amser ar gynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## Ansawdd dŵr



Mae ansawdd dŵr yn broblem sy'n wynebu llawer o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar draws y rhwydwaith. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddalgylch Daron ym Mhenrhyn Llŷn. Gan weithio'n agos gyda phartneriaid, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, mae samplau wedi'u cymryd o Afon Daron yn rheolaidd mewn sawl lleoliad dros gyfnod estynedig. Hefyd, cyflawnwyd contract i gerdded y dalgylch cyfan i nodi ffynonellau llygredd. O ganlyniad, lluniwyd adroddiad yn nodi ffynonellau llygredd yn ogystal â darparu argymhellion a fydd yn arwain at ansawdd dŵr gwell. Yna, cafodd gweithdy llwyddiannus ei gynnal gyda thirfeddianwyr i gyflwyno'r canlyniadau a thrafod yr argymhellion. Yn 2019-20 canolbwyntiwyd ar weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2020-21.

(Mae'r prosiect yn cyfrannu hefyd at Gam Gweithredu 15 "Archwilio sut y gellir cymhwyso canlyniadau o brosiectau peilot ar lygredd gwasgaredig ac atmosfferig yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, ACA Sir Benfro Forol ac ACA Aber Afon Hafren ar draws y rhwydwaith".)

## Cimwch coch

Adroddwyd bod poblogaethau'r cimwch coch ym Mhen Llŷn a'r Sarnau wedi'u disbyddu bron yn y 1970au. Mae eu poblogaethau'n parhau'n argyfyngus o isel. Mae'r cimwch coch yn elfen o'r nodwedd riff ym Mhen Llŷn a'r Sarnau. Mae'r prosiect hwn yn ceisio archwilio opsiynau ymarferol a fydd yn helpu'r cimwch coch i ymadfer. Mae'r Swyddog ACA wedi bod yn gweithio'n agos gydag ardaloedd eraill ac arbenigwyr i archwilio camau gweithredu posibl. Mae'r Swyddog ACA wedi sicrhau cefnogaeth cymdeithasau pysgodfeydd a chlybiau deifio lleol. Mae adroddiad wedi'i gwblhau sy'n edrych ar yr opsiynau ar gyfer adfer y cimwch coch.  Mae'r Swyddog ACA wrthi'n trafod opsiynau ar gyfer y camau nesaf.

## Dyfrgwn

Mae dyfrgwn yn nodwedd o Ben Llŷn a'r Sarnau. Maent mewn cyflwr ffafriol ar hyn o bryd ond maent yn dal i wynebu nifer o broblemau. Mae gan y prosiect hwn ddau nod - yn gyntaf, sicrhau eu bod yn parhau mewn cyflwr ffafriol, ac yn ail, defnyddio'r dyfrgi fel adnodd addysgol.  Cynhyrchwyd adroddiad yn coladu gwybodaeth am ddyfrgwn ym Mhen Llŷn a'r Sarnau ac argymhellion ar gyfer opsiynau rheoli. Gosodwyd camerâu synhwyro symudiad ym Mhen Llŷn a'r Sarnau i geisio casglu rhagor o wybodaeth am symudiadau dyfrgwn.  Cynhyrchwyd adroddiad yn amlinellu'r canfyddiadau.

## Sbwriel

Mae prosiectau sbwriel ym Mhen Llŷn a'r Sarnau yn canolbwyntio ar nifer o wahanol elfennau, yn bennaf glanhau traethau, monitro sbwriel a lleihau sbwriel o'r ffynhonnell. Mae nifer o sesiynau glanhau traethau wedi'u cynnal ar draws Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae ymgyrch I'r Gwellt â'r Gwelltyn wedi parhau gyda llawer o fusnesau'n addo rhoi'r gorau i ddefnyddio gwellt neu newid i fersiynau bioddiraddadwy. Mae gwaith wedi'i wneud hefyd i gynnal y gorsafoedd #2minbeachclean. Hefyd, gweithiodd Pen Llŷn a'r Sarnau gyda thîm o brifysgolion a hwyliodd gwch hir Cymreig i ddyfroedd yr Arctig i astudio effeithiau plastig. Defnyddiwyd delweddau a ffilm a recordiwyd yn ystod y fordaith i greu arddangosfa sbwriel Pen Llŷn a'r Sarnau a digwyddiad i randdeiliaid.  Bu'r Swyddog ACA yn cydgysylltu gwaith ar adolygiad sbwriel Cymru hefyd.



## Pecyn Addysg

Mae addysg yn elfen allweddol o reolaeth forol. Mae'r Swyddog ACA wedi bod yn arwain partneriaeth i ddatblygu pecyn addysg dwyieithog ar gyfer ysgolion cynradd. Bydd y pecyn yn ymdrin ag amgylcheddau morol, dŵr croyw a daearol yn unol â'r dull dalgylch o reoli. Mae drafft cyntaf y pecyn addysg wedi'i gynhyrchu a'i gymeradwyo gan nifer o athrawon lleol.

## Cod Morwrol




Mewn partneriaeth ag ACA Ceredigion a rhanddeiliaid lluniwyd Cod Morwrol newydd ar gyfer Pen Llŷn a'r Sarnau yn 2016. Yna aeth y Swyddog ACA ymlaen i lunio cod ar gyfer Ynys Môn a Chonwy. Mae'r un cod yn cael ei hyrwyddo ar draws y pedair sir bellach ac mae wedi'i fabwysiadu a'i ddosbarthu gan bob awdurdod lleol. Yn 2019-20 canolbwyntiodd y gwaith ar ddosbarthu a hyrwyddo'r cod. Mae'r Swyddog ACA wedi bod yn gweithio gyda fforwm Arfordir Sir Benfro hefyd i ddatblygu mapio arbennig ar gyfer ardaloedd sensitif ym Mhen Llŷn a'r Sarnau. Mae hyn wedi cynnwys nifer o weithdai i randdeiliaid. Mae'r Swyddog ACA wedi gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu Lleol ar gyfer Pysgodfeydd hefyd i ddatblygu nifer o ddeunyddiau ategol ar gyfer y cod morwrol, gan gynnwys sticeri newydd ar gyfer cychod, paneli gwybodaeth bach a thaflen. Fe'u dosbarthwyd ledled Gwynedd ac ar hyd arfordir y Gogledd. Defnyddiwyd technoleg fel NFC hefyd ac roedd y deunydd yn cynnwys dolenni i wefan Moroedd Gwyllt Cymru i sicrhau negeseuon cyson.

## Cynllun Bioddiogelwch Pen Llŷn a'r Sarnau

Mae'r Swyddog ACA wedi bod yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu cynllun bioddiogelwch ar gyfer Pen Llŷn a'r Sarnau i helpu i atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag lledaenu. Eleni, mae'r Swyddog ACA wedi gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar fapio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a chodi eu hymwybyddiaeth.

## Aflonyddu ar Forloi Ifanc


Mae'r Swyddog ACA wedi cydgysylltu gwaith i gynhyrchu paneli newydd ar aflonyddu ar forloi ifanc. Maent wedi'u dosbarthu a'u gosod ar hyd arfordir Cymru. Maent yn baneli dros dro a fydd yn cael eu hailosod bob blwyddyn yn ystod y tymor magu. Mae rhwydwaith o gysylltiadau wedi'u creu ar hyd yr arfordir i helpu gyda'u gosod. Cynhaliwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r broblem hefyd.

## Prosiect Morwellt Porthdinllaen

Mae'r prosiect hwn yn edrych ar opsiynau i leihau effaith angori ar forwellt. Mae gan Borthdinllaen un o'r gwelyau morwellt mwyaf a dwysaf yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2019 gosodwyd dau angor heligol yn yr harbwr mewnol ym Mhortdinllaen. Mae'r angorau hyn wedi cael eu treialu ers blwyddyn bellach. Cynhyrchwyd adroddiad yn amlinellu'r fethodoleg a'r canfyddiadau cychwynnol. Mae gan angorau heligol ôl troed llai felly maent yn cael llawer llai o effaith wrth eu gosod, eu harchwilio a'u hadnewyddu.

## Ymwybyddiaeth ac Addysg

Mae ymwybyddiaeth ac addysg yn chwarae rhan hanfodol mewn rheoli morol. Er mwyn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl, mae'r Swyddog ACA wedi:




- Cynhyrchu ail rifyn o gylchgrawn Pen Llŷn a'r Sarnau, O Dan y Don
- Bod yn weithgar ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac wedi cynnal gwefan Pen Llŷn a'r Sarnau
- Ysgrifennu erthyglau ar gyfer nifer o gyhoeddiadau gan gynnwys papurau a chylchlythyrau lleol
- Siarad ar radio lleol yn trafod materion morol
- Gwneud nifer o gyflwyniadau (11)
- Sicrhau bod deunydd Pen Llŷn a'r Sarnau i'w weld mewn sioeau a digwyddiadau amrywiol
- Trefnu a mynychu nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys teithiau tywys, gweithdai a sesiynau glanhau traethau (tua 17 digwyddiad, ymgysylltu â 1,000 o unigolion)
- Ymweld ag ysgolion lleol (22 ysgol, 387 o ddisgyblion)
- Hyrwyddo ffilmiau Pen Llŷn a'r Sarnau
- Cyfarfod â nifer fawr o grwpiau a sefydliadau i hyrwyddo Pen Llŷn a'r Sarnau ac annog gweithio mewn partneriaeth (ymgysylltu â 340 o randdeiliaid unigol)

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiectau hyn neu ACA Pen Llŷn a'r Sarnau cysylltwch ag Alison Hargrave ar alisonpalmerhargrave@gwynedd.llyw.cymru. Neu ewch i www.penllynarsarnau.co.uk. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ar dudalennau Facebook a Twitter Pen Llŷn a'r Sarnau hefyd.

@ACA_PLAS_SAC Pen Llŷn a'r Sarnau



# Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACA Bae Ceredigion – Diweddariad 2019/20

Melanie Heath

**Gwylio Dolffiniaid a Llamhidyddion (DPW)**




Mae swyddog yr Ardal Forol Warchodedig wedi recriwtio gwirfoddolwyr newydd i'r prosiect Gwylio Dolffiniaid a Llamhidyddion ac wedi darparu hyfforddiant i wirfoddolwyr hen a newydd. Mae bron i 50 o wirfoddolwyr wedi cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi a/neu fonitro yn ystod tymor 2019. Casglodd gwirfoddolwyr ddata am frain coesgoch a welwyd hefyd. Mae gwirfoddolwyr newydd wedi cael eu recriwtio drwy ddigwyddiadau, posteri a chyfryngau cymdeithasol Gwylio Dolffiniaid a Llamhidyddion. Darparwyd wyth sesiwn hyfforddi gan swyddog yr Ardal Forol Warchodedig mewn gwahanol leoliadau ar hyd arfordir Ceredigion o'r Borth yn y gogledd i Mwnt yn y de. Roedd hyn yn cynnwys 141 awr o amser gwirfoddolwyr.

**Adroddiadau Gwylio Dolffiniaid**

Mae'r swyddog wedi cofnodi'r holl ddata gweld dolffiniaid ar gyfer tymhorau monitro 2016 a 2017, wedi dadansoddi'r canlyniadau ac wedi ysgrifennu a chyhoeddi dau adroddiad:

- Dolphin Watch: Bottlenose Dolphins and Boat Traffic on the Ceredigion Coast, West Wales 2016
- Dolphin Watch: Bottlenose Dolphins and Boat Traffic on the Ceredigion Coast, West Wales 2017

Cofnodwyd data 2019 yn ystod gaeaf 2019-20.

**Digwyddiadau Cyhoeddus**

Trefnodd y swyddog ddeuddeg digwyddiad Gwylio Dolffiniaid a Llamhidyddion i'r cyhoedd rhwng mis Chwefror a diwedd mis Mai yng Nghraig yr Adar Ceinewydd, wal harbwr Ceinewydd, Mwnt ac Aberystwyth. Cyfanswm y cyfranogwyr – 74.



Cynhaliodd y swyddog ddeuddeg digwyddiad Gwylio Dolffiniaid a Llamhidyddion arall i'r cyhoedd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi yng Nghraig yr Adar Ceinewydd, wal harbwr Ceinewydd a Llangrannog. Cyfanswm y cyfranogwyr – 109.

Cynhaliodd y swyddog dri gweithdy sbwriel morol yng nghanolfan ymwelwyr yr Ardal Forol Warchodedig yn ystod gwyliau ysgol hanner tymor mis Chwefror a thri gweithdy arall yn ystod gwyliau ysgol y Pasg. Daeth cyfanswm o 24 o gyfranogwyr i'r chwe gweithdy.

Cynhaliodd y swyddog dri gweithdy sbwriel morol yng nghanolfan ymwelwyr yr Ardal Forol Warchodedig ar benwythnosau yn ystod mis Medi a thri gweithdy arall yn ystod gwyliau ysgol hanner tymor yr hydref. Daeth cyfanswm o 22 o gyfranogwyr i'r chwe gweithdy.

**Gweithdai Ysgolion**

Mae swyddog yr Ardal Forol Warchodedig wedi cynnal gweithdai ysgol i flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn Ysgol Gynradd Aberporth a blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn Ysgol Gynradd Aberaeron yn ystod hanner cyntaf tymor yr haf. Cyfranogwyr – 66 a 111.



Yn ystod ail hanner tymor yr haf, bu'r swyddog yn cynnal gweithdai i flynyddoedd 3,4, 5 a 6 yn Ysgol Craig yr Wylfa, y Borth ac Ysgol Bro Siôn Cwilt, Ceinewydd. Cyfranogwyr - 37 a 63.

Yn ystod tymor yr hydref, cynhaliodd y swyddog weithdy arall i flynyddoedd 3,4, 5 a 6 yn Ysgol Craig yr Wylfa, y Borth. Cyfranogwyr – 32.

Roedd y sesiynau hyn yn ymdrin â'r gwahaniaethau rhwng dolffiniaid trwyn potel a llamhidyddion, ymddygiad allweddol a bygythiadau i'r naill rywogaeth a'r llall.

Gweithgaredd sbwriel morol yn codi ymwybyddiaeth o ba mor hir y mae deunyddiau gwahanol yn ei gymryd i ddadelfennu yn yr amgylchedd morol a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar gynefinoedd, addasiadau a chadwyni bwyd.

**Canolfan Ymwelwyr yr Ardal Forol Warchodedog**

Mae'r swyddog wedi agor canolfan ymwelwyr yr Ardal Forol Warchodedig bob dydd Sadwrn rhwng mis Chwefror a diwedd mis Hydref, ar Wyliau Banc a 4 diwrnod yr wythnos yn ystod gwyliau'r ysgol.

Dosbarthwyd Taflenni ACA i ymwelwyr yn y ganolfan, ac mae taflenni dal crancod wedi'u dosbarthu gan y swyddog i deuluoedd yn dal crancod ar wal harbwr Ceinewydd. Mae'r taflenni hyn wedi'u darparu i ymwelwyr gan siopau lleol sy'n gwerthu offer dal crancod hefyd.


**Cod Ymddygiad Morol Ceredigion**

Cyfarfu'r swyddog â staff Gwasanaethau Technegol Cyngor Ceredigion ar ddechrau'r flwyddyn i sicrhau bod codau ymddygiad yn cael eu hanfon gyda phob cais i angori cychod modur a hwylio a cheufadau yng Ngheredigion. Dosbarthwyd copïau o'r cod ymddygiad i geufadwyr a phadlfyrddwyr sy'n lansio o Draeth y Dolau a'r prif draeth yng Ngheinewydd. Cynhaliwyd cyfarfod capteiniaid ar ddechrau'r tymor gyda pherchnogion cwmnïau cychod tripiau bywyd gwyllt i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod ymddygiad masnachol.

**Paneli Dehongli**

Gosodwyd paneli dehongli tymhorol i godi ymwybyddiaeth o effaith sathru ar glystyrau Sabellaria ar safleoedd allweddol ar hyd arfordir Ceredigion gan swyddog yr Ardal Forol Warchodedig. Cafodd paneli tymhorol i godi ymwybyddiaeth yn ystod tymor magu’r morloi eu gosod ar draethau allweddol ar hyd arfordir Ceredigion gan y swyddog hefyd.

**Aflonyddwch**




Cynhyrchwyd paneli a thaflenni dehongli newydd gyda chyllid wedi'i ddarparu'n garedig gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Diben y deunydd dehongli newydd yw helpu defnyddwyr dŵr i adnabod arwyddion aflonyddwch mewn mamaliaid môr ac adar môr.

**Cynllun Lleihau Plastig a Phecynnau Ceredigion**

Lansiodd swyddog yr Ardal Forol Warchodedig gystadleuaeth gyda phum ysgol gynradd yng nghyffiniau ACA Bae Ceredigion; gofynnwyd i'r disgyblion ddylunio logo i leihau'r defnydd o blastig gan fusnesau tecawê yng Ngheredigion. Gan fod ymwybyddiaeth o wellt plastig a mathau eraill o blastig wedi tyfu ers cyflwyno'r cais am grant, penderfynwyd ehangu cylch gwaith y prosiect i gwmpasu pum categori gwahanol o achrediad – dim gwellt, cyllyll a ffyrc na phacedi saws plastig; lleihau deunydd pacio; darparu cyfleusterau ail-lenwi poteli dŵr a chategori arbennig i ysgolion. Dewiswyd pum dyluniad buddugol ar gyfer y categorïau hyn. Derbyniodd y rhai ddaeth yn gyntaf ac ail dystysgrif a derbyniodd pob ysgol a gymerodd ran lyfr 'sut i leihau eich plastig' ar gyfer llyfrgell yr ysgol.




Hyd yma, mae tri ar hugain o fusnesau a deuddeg ysgol wedi cymhwyso ac wedi ymrwymo i'r cynllun. Y gobaith oedd y byddai tîm gwastraff Cyngor Ceredigion a staff Cadwch Gymru'n Daclus yn helpu i gyflwyno'r cynllun achredu, ond yn anffodus oherwydd pwysau ar amser staff, ni fu hyn yn bosib, felly dim ond swyddog yr Ardal Forol Warchodedig sydd wedi bod wrthi'n cyflwyno'r cynllun. Nawr bod y cynllun achredu wedi'i sefydlu a'r cyhoeddusrwydd a'r gwobrau cychwynnol wedi'u cwblhau, byddai'n fuddiol pe gellid cyflwyno'r cynllun yn ehangach ar draws y sir, a byddai angen grant i ariannu hyn yn y dyfodol, er mwyn galluogi'r swyddog i gwblhau gwaith codi ymwybyddiaeth wedi'i dargedu mewn trefi unigol a thrwy weithdai ysgol yn ehangach ledled y sir.



**TRYSORAU**

Mae swyddog Ardal Forol Warchodedig Bae Ceredigion wedi bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion ACA eraill Cymru ar brosiect cydweithredol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y prosiect ar waith am dair blynedd ac mae'n ymdrin â sbwriel ac aflonyddwch morol. Cydlynodd y swyddog newidiadau i banel ymwybyddiaeth o forloi Ceredigion fel y gellir ei ddefnyddio ledled Cymru erbyn hyn. Cynhyrchwyd 50 o fyrddau ac maent wedi'u dosbarthu bellach i'w defnyddio yn ystod tymor magu'r morloi eleni o gwmpas arfordir Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiectau hyn neu ACA Bae Ceredigion, cysylltwch â Melanie Heath ar Melanie.Heath2@ceredigion.gov.uk.


# Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACA Sir Benfro Forol - diweddariad 2019/20

Sue Burton

**SWEPT (Arolygu Amgylchedd y Dyfrffyrdd am Fygythiadau Llygredd)**
Arweiniwyd SWEPT gan Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol gyda chyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Y prif amcan oedd casglu data ac edrych ar effeithiau llygredd maethynnau o ddŵr ffo o'r tir ar yr amgylchedd morol. Fel rhan o'r prosiect gwyddoniaeth dinasyddion bu dros 100 o wirfoddolwyr yn cynnal ac ailadrodd arolygon o ddarnau o'r lan o fewn Dyfrffordd Aberdaugleddau ac yn profi samplau dŵr am lefelau nitradau a ffosffadau rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Mawrth 2019. Treuliwyd llawer o ail chwarter 2019 yn gweithio i ddatblygu'r set ddata sylweddol a ddeilliodd o hynny.

Roedd SWEPT yn llwyddiant ysgubol, o ran cynnwys gwirfoddolwyr a sicrhau data defnyddiol. Cymaint felly, fel ei fod wedi ennill gwobr genedlaethol. Mae gwobr *Park Protecor*, a gynhelir gan Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol, elusen 13 Parc Cenedlaethol Cymru a Lloegr, yn dathlu ac yn cefnogi prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth i ddiogelu ardaloedd cefn gwlad enwocaf y byd. SWEPT oedd yr unig brosiect o Gymru i gael ei roi ar y rhestr fer gan godi ymwybyddiaeth o'r cysylltiad pwysig rhwng yr hyn a wnawn ar y tir a chyflwr ein dyfroedd arfordirol. Galluogodd arian gwobr *Park Protector* i fwy o amser gael ei dreulio'n dadansoddi data a llunio adroddiad cynhwysfawr i gynorthwyo gydag ymholiadau gan y rhai sydd â diddordeb mewn efelychu'r fethodoleg. Cwblhawyd hyn ym mis Mawrth 2020. Bu'n rhaid gohirio digwyddiad rhannu SWEPT oedd i'w gynnal ddiwedd mis Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 ond y gobaith yw cynnal digwyddiad rhithwir yn ddiweddarach yn y flwyddyn.




*Derbyniodd Sue Burton, Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol, ac Anne Bunker a Simon Shorten o Cyfoeth Naturiol Cymru wobr Park Protector y Parciau Cenedlaethol am SWEPT mewn derbyniad seneddol ar 10 Gorffennaf 2019 yn Nhŷ'r Cyffredin. Llwyddwyd i gynhyrchu adroddiad SWEPT diolch i arian y wobr.*

Roedd ansawdd a swm y data a gynhyrchwyd ymhell tu hwnt i ddisgwyliadau'r prosiect. Yn ystod y pedwar mis o ailadrodd arolygon, tynnwyd 2105 o luniau a gwnaed 881 o brofion nitradau a ffosffadau gan wirfoddolwyr. Casglodd pedair taith ganŵ gan wirfoddolwyr eraill ddata o ardaloedd anodd eu

cyrraedd. Gwelodd y canlyniadau fyrdd o wahanol fewnbynnau dŵr croyw o dryddiferiadau a rhaeadrau bach i bibellau a nentydd, a disgrifiwyd 320 ar draws y ddyfrffordd yn ystod y cyfnod â'r glaw trymaf ym mis Rhagfyr. Dangosodd canlyniadau wedi'u mapio fod lefelau nitradau yn uchel iawn mewn llawer o leoliadau. Roedd ffosffad yn isel ar y cyfan ym mhob ardal. Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth amseryddol arwyddocaol mewn lefelau llygredd er y nodwyd bod glawiad uwch yn cyd-fynd â lefelau uwch o lygredd. Cynorthwyodd tri myfyriwr prifysgol gyda'r gwaith o drin a dadansoddi data a defnyddiodd dau fyfyriwr ddata SWEPT ar gyfer eu traethodau ymchwil (gyda'r ddau yn derbyn gradd dosbarth cyntaf). Yn unol ag astudiaethau cymharu blaenorol, daeth SWEPT i'r casgliad bod pecynnau Kyoritsu PackTest yn ffordd gyflym, hawdd a chost effeithiol i wyddonwyr sy'n ddinasyddion nodi llygredd gan faethynnau dros ardaloedd eang. Roedd y pecynnau maes sy'n newid lliw yn llai cywir na chymariaethau profion labordy, ond yr hyn sy'n bwysig yw eu bod wedi nodi llygredd lle'r oedd yn bodoli a'u bod yn annhebygol o roi canlyniadau cadarnhaol ffug. Yn ogystal â'r canlyniadau ansawdd dŵr, casglodd gwirfoddolwyr wybodaeth am sbwriel morol, rhywogaethau estron ac unrhyw fygythiadau llygredd eraill fel olew neu dipio anghyfreithlon. Aeth Cyfoeth Naturiol Cymru i'r afael â'r holl bryderon llygredd difrifol a gofnodwyd yn ystod y gwaith maes. Llwyddodd prosiect glanhau afonydd mawr, dan arweiniad Ceidwad Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, i waredu ac ailgylchu swm sylweddol o sbwriel morol o 'fannau problemus' a amlygwyd gan wirfoddolwyr yr arolwg.

Mae nodweddion morol ACA Sir Benfro Forol (sy'n ymestyn o amgylch arfordir Sir Benfro ac sy'n cynnwys dyfrffordd Aberdaugleddau i derfynau llanw) mewn cyflwr anffafriol yn rhannol oherwydd llygredd maethynnau o ddŵr ffo amaethyddol sy'n cludo gwrtaith a charthffosiaeth. Hefyd, mae'r ddyfrffordd wedi methu â bodloni statws 'Da' sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr erbyn 2027. Bydd data SWEPT yn ategu'r hyn a gasglwyd eisoes gan Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i flaenoriaethu camau cadwraeth ar y tir ac arwain at welliannau amgylcheddol.

Roedd SWEPT yn boblogaidd gyda chyfranogwyr a does dim dwywaith iddo godi ymwybyddiaeth o broblem dŵr ffo o'r tir sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol. Mae cynnwys pobl leol mewn materion amgylcheddol lleol yn cynorthwyo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effeithiau dynol ac mae hyn yn rhoi hwb gwirioneddol i ddiogelu'r amgylchedd. Mae diddordeb mewn cymhwyso "methodoleg SWEPT" i ardaloedd eraill wedi'i fynegi eisoes; y gobaith yw y gall adroddiad ac atodiadau SWEPT gynorthwyo hyn.

(Mae SWEPT hefyd yn cyfrannu at Gam Gweithredu 15 hefyd "Archwilio sut y gellir cymhwyso canlyniadau o brosiectau peilot ar lygredd gwasgaredig ac atmosfferig yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, ACA Sir Benfro Forol ac ACA Aber Afon Hafren ar draws y rhwydwaith".)

**Prosiect Seagrass Ocean Resue**.
Mae prosiect Seagrass Ocean Rescue wedi bod yn fenter ar y cyd rhwng Sky Ocean Rescue, WWF a Phrifysgol Abertawe, gyda chymorth gyda chynllunio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid gan Fforwm Arfordir Sir Benfro a Swyddog ACA Sir Benfro Forol. Yn dilyn cyswllt cymunedol lleol dwys a thrwyddedu, llwyddodd y prosiect i blannu 750,000 o hadau mewn ardal y cytunwyd arni ym Mae Dale ddiwedd mis Chwefror/dechrau mis Mawrth 2020. Bu'r Swyddog ACA yn cyfrannu hefyd at becyn gwaith ar angorfeydd ymwelwyr ar gyfer yr ardal. Mae cyswllt â rhanddeiliaid yn parhau gyda chreu Grŵp Rhanddeiliaid Morwellt Dale i drafod rheoli a monitro yn y dyfodol.

**Pecyn Addysg Dwyieithog Sir Benfro Forol**.
Gohiriwyd cwblhau'r adnodd hwn tan 2020 oherwydd pwysau gwaith arall gan gynnwys SWEPT a Seagrass Ocean Rescue. Mae'r Pecyn Gweithgareddau Glan y Môr yn cyfuno gweithgareddau ar y tir â gweithgareddau atodol ar draws holl bynciau'r cwricwlwm. Mae'n adeiladu ar adborth gan athrawon ysgolion cynradd yn ystod gweithdy ym mis Mawrth 2019 i ddarparu adnodd a all annog

dysgu yn yr awyr agored yn yr amgylchedd morol.  Nid yw'r pecyn ar gyfer ysgolion yn unig, ond yn hytrach unrhyw un sy'n awyddus i ddysgu mwy, boed hynny drwy ddarparwr gweithgareddau awyr agored, unrhyw grŵp wedi'i drefnu neu drwy addysg gartref.  Gall cynnwys y pecyn fodloni gofynion ar gyfer adnodd addysg forol cenedlaethol sydd ar gael am ddim i bawb hefyd(derbyniwyd rhywfaint o arian gan Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer hyn).  Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn frwdfrydig ynghylch darparu adnoddau dwyieithog drwy eu platfform ac mae'r Swyddog ACA wedi bod yn cysylltu â nhw ynglŷn â hyn.







*Rhai o adnoddau'r pecyn gweithgareddau glan y môr gan y Swyddog ACA.*

**Gwaith ychwanegol.**
Yn ogystal â'r tri phrosiect uchod a lenwodd y rhan fwyaf o amser y Swyddog ACA yn ystod 2019-20, bu'r Swyddog ACA yn cyfrannu at y prosiectau canlynol hefyd:
- Adeiladu Cydnerthedd o fewn Dalgylchoedd (BRICs) dan arweiniad PLANED a Fforwm Arfordir Sir Benfro.
- Mapio Gweithgareddau Cymru, gan gynnwys mapio risgiau i nodweddion cadwraeth forol yn sgil gweithgareddau hamdden dan arweiniad Fforwm Arfordir Sir Benfro.
- Canllawiau a chodi ymwybyddiaeth i leihau effeithiau llygredd golau ar adar drycin Manaw ar ran Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru.
- Digwyddiadau hyfforddi glannau creigiog ar gyfer Cod Morol Sir Benfro a Grwpiau Siarter Awyr Agored dan arweiniad Fforwm Arfordir Sir Benfro.
- Adfywio wystrys brodorol o fewn dyfrffordd Aberdaugleddau dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Adolygiad rheoli palu am abwyd o'r Gann dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae gwaith ymwybyddiaeth a gwaith addysgol yn digwydd ar sail *ad hoc* pan fydd amser yn caniatáu. Mae cyfrifon Twitter a Facebook yn cael eu cynnal.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiectau hyn neu ACA Sir Benfro Forol, cysylltwch â Sue Burton ar sue.burton@mhpa.co.uk

@PembsMarineLife @PembrokeshireMarineWildlife

# Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin – Diweddariad 2019/20

Judith Oakley

Ar hyn o bryd, dim ond am un diwrnod yr wythnos y cyflogir Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Y rheswm am hyn yw'r cyllid sydd ar gael gan bartneriaid y Grŵp Awdurdodau Perthnasol neu gyllid allanol arall. Ariannwyd y swydd eto yn ddiweddar am 12 mis o 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2021.

Felly, mae'n anodd gwneud llawer o waith prosiect mewn cyn lleied o amser.

Mae'r prif feysydd gwaith yn cynnwys:

- gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol
- mynychu cyfarfodydd allanol a rhoi adborth i'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol
- ymateb i ymgynghoriadau
- cysylltu â Swyddogion Safleoedd Morol Ewropeaidd (EMS) eraill Cymru
- cysylltu â swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar y safle
- ateb ymholiadau
- cyfrannu at geisiadau am gyllid/prosiectau

Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r swyddog safle wedi cymryd rhan mewn dau brosiect ar y cyd â Swyddogion ACA eraill Cymru. Cawsant eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac roeddent yn cynnwys:  adolygiad cenedlaethol o brosiectau sbwriel morol a phlastig ac aflonyddwch mamaliaid môr - codi ymwybyddiaeth o forloi ifanc drwy osod paneli gwybodaeth dros dro mewn lleoliadau allweddol. O fewn ffiniau Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin, roedd y rhain ym Mhort Einon a Phen Pyrod, Rhosili.



Judith Oakley, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin, gyda phanel morloi ifanc a godwyd ym Mhorth Einon, Penrhyn Gŵyr

Dewiswyd ACA ac AGA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin fel astudiaeth achos ar gyfer astudiaeth beilot i fodelu a mapio'r risg bosib i nodweddion cadwraeth forol. Defnyddiodd y prosiect ddata gofodol ar weithgareddau hamdden morol yn y De-orllewin o gronfa ddata Mapio Gweithgareddau Cymru. Yn ogystal, darparwyd gwybodaeth a data arall gan Swyddog Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Cafodd y prosiect ei ddarparu gan GoBe Consultants a'i ariannu gan Cyfoeth Naturiol Cymru , Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP). Mae'r adroddiad **'Mapping the Potential Risk to Marine Conservation Features from Multiple Recreational Activities'** ar gael o: https://www.walesactivitymapping.org.uk/wp-content/uploads/2020/05/WAMSensitivityMapping_06042020.pdf

Mae sawl prosiect ar y gweill yn ymwneud â morfeydd heli Gogledd Penrhyn Gŵyr, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru. Maent yn cynnwys ymchwil i ddeall ymhellach effeithiau gorbori gan ddefaid ar y safle, a dŵr ffo morfeydd heli ac effeithiau ar ansawdd dŵr ac iechyd pysgod cregyn yng Nghilfach Tywyn.

Mae'r daflen wybodaeth newydd am y safle wedi'i dosbarthu'n eang i helpu i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau a chynefinoedd a dynodiadau cadwraeth pwysig EMS Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.




Tudalen flaen a chefn taflen Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.

Oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19, mae'r swyddog safle wedi bod yn gweithio gartref ers mis Mawrth 2020. Cynhaliodd y Grŵp Awdurdodau Perthnasol ei gyfarfod chwarterol ar-lein cyntaf erioed drwy Skype ym mis Mehefin, a oedd yn llwyddiannus iawn gyda chynrychiolaeth dda gan bartneriaid.


I gael rhagor o wybodaeth am Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin, cysylltwch â Judith Oakley ar: cbeems.officer@gmail.com.

## Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Aber Afon Hafren (ASERA) – Diweddariad 2019/20

Lucy Taylor (Ebrill 2019 – 18 Mawrth 2020), Katie Havard-Smith (18 Mawrth 2020 – presennol)

### Cynllun Rheoli Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren a Chynllun Gweithredu Awdurdodau Perthnasol

Roedd ASERA yn falch o gyhoeddi Cynllun Rheoli Safle Morol Ewropeaidd (EMS) Aber Afon Hafren a Chynllun Gweithredu Awdurdodau Perthnasol 2018-2023 ym mis Mai 2018. Mae Cynllun Rheoli ASERA yn darparu mecanwaith i Awdurdodau Perthnasol bennu'r fframwaith ar gyfer rheoli eu gweithgareddau, naill ai'n wirfoddol neu drwy ddeddfwriaeth, er mwyn cyflawni amcanion cadwraeth natur y safle. Mae'n ystyried a yw gweithgareddau'n achosi effeithiau andwyol ac, os felly, sut y gall Awdurdodau Perthnasol reoleiddio gweithgareddau o'r fath er mwyn atal niwed i nodweddion ac is-nodweddion y safle. Gall effaith gweithgaredd ddibynnu ar ei raddfa, ei leoliad a'i amlder, yn ogystal â pha mor fregus yw'r nodwedd.





Mae Cynlluniau Gweithredu yn rhoi'r mecanwaith i Awdurdodau Perthnasol fynd i'r afael â'r canlynol:

- Gweithgareddau y nodwyd eu bod yn debygol o achosi dirywiad neu aflonyddwch sylweddol i'r safle;
- Gweithgareddau nad yw eu heffeithiau'n hysbys (h.y. nid oes digon o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i bennu lefel y dirywiad neu'r aflonyddwch i'r safle);
- Cynlluniau a phrosiectau penodol o natur barhaus ac ailadroddus y gallai ASERA hwyluso'r gwaith o gynhyrchu nodiadau cyfarwyddyd ar eu cyfer.

Y flwyddyn adrodd ar gyfer Cynlluniau Gweithredu'r Awdurdodau Perthnasol yw 1 Ebrill i 31 Mawrth. Bydd adroddiad 2019-2020 ar gael yn ddiweddarach eleni.

### Canllawiau Arfer Da Aber Afon Hafren




Mae ASERA wedi nodi aflonyddwch hamdden fel un o'r problemau allweddol sy'n effeithio ar statws cadwraeth EMS Aber Afon Hafren. Aflonyddwch yw unrhyw weithgaredd neu sŵn a allai newid ymddygiad anifail (bwydo, gorffwys neu fridio) neu strwythur cynefinoedd. Gall aflonyddwch mynych fygwth goroesiad rhai o'r rhywogaethau a chynefinoedd allweddol a ddynodwyd o dan EMS Aber Afon Hafren.

Er iddynt gael eu llunio yn 2017, mae hyrwyddo'r canllawiau'n parhau i fod yn elfen allweddol o waith ASERA i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n weithredol gan Awdurdodau Perthnasol a'u bod yn cael eu parchu gan grwpiau defnyddwyr.

### Astudiaethau Hamdden

Fel y crybwyllir uchod, nodwyd bod aflonyddwch hamdden yn fater allweddol i EMS Aber Afon Hafren. Ffocws allweddol i'r Swyddog ASERA fu cynnal adolygiad o weithgareddau er mwyn deall yr effaith bosibl y gallent fod yn ei chael ar nodweddion yr EMS.

*Hamdden ar y Tir*

Nod Cam 1 yr astudiaeth yw dwyn data sy'n bodoli eisoes ynghyd ar amrywiaeth o weithgareddau hamdden ar y tir (e.e. gwylio adar), gweithgareddau ar y traeth (e.e. syrffio barcud, bygis tywod, beicio modur oddi ar y ffordd) a mynediad i'r arfordir. Mae data'n cael ei gasglu ar hyn o bryd ar ddwysedd, mynychder a lleoliad y gweithgareddau hyn yn Aber Afon Hafren a'r cyffiniau. Adolygwyd yr adroddiad Cam 1, a gyflwynodd y data a gasglwyd, gan is-grŵp o aelodau ASERA a dyma oedd sail yr adroddiad cryno, a fydd yn cael ei gwblhau erbyn hydref 2020.

*Palu am Abwyd a Physgota Hamdden*

Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys pysgota ar y lan ac o gychod, a phalu am abwyd at ddibenion hamdden. Mae Cam 1 yr astudiaeth wedi cynnwys coladu a mapio gwybodaeth bresennol am y gweithgareddau hyn, er mwyn nodi lle mae bylchau mewn data/tystiolaeth. Mae Cam 2 yn debygol o gynnwys arolygon safle, gan gwblhau'r prosiect erbyn 2021. Bydd y dystiolaeth hon yn llywio a oes angen unrhyw gamau rheoli ar gyfer Awdurdodau Perthnasol.

*Mynediad i'r Arfordir*

Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys mynediad i'r arfordir gan ddefnyddio hawliau tramwy cyhoeddus o amgylch yr EMS at ddibenion hamdden, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybrau arfaethedig Llwybr Arfordir Lloegr. Mae Cam 1 yr astudiaeth wedi cynnwys coladu a mapio hawliau tramwy cyhoeddus presennol o amgylch yr EMS. Mae Cam 2 yn debygol o gynnwys cyfarfod ag arweinwyr mynediad i'r arfordir ac arolygon safleoedd i ddeall pryderon ynghylch lleoliadau penodol a mesurau rheoli presennol. Bydd adroddiad cryno yn cael ei lunio erbyn 2021. Bydd y dystiolaeth hon yn llywio a oes angen unrhyw gamau rheoli ar gyfer Awdurdodau Perthnasol.

Bioddiogelwch ym Môr Hafren – Beth yw'r Risg?

Ym mis Mai 2018, darparodd ASERA blatfform i dreialu a 'phrofi' pecyn hyfforddi bioddiogelwch prosiect RAPID LIFE sydd wedi'i fwriadu ar gyfer grwpiau defnyddwyr sydd fwyaf tebygol o ledaenu Rhywogaethau Estron Goresgynnol mewn amgylcheddau arfordirol. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, cytunodd y grŵp i gynnal asesiad risg lefel uchel o rywogaethau estron goresgynnol yn EMS Aber Afon Hafren. Yn 2019, llwyddasom i gael cyllid ar gyfer lleoliad myfyriwr 8 wythnos i gefnogi'r adolygiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys coladu'r wybodaeth sydd ar gael am bresenoldeb a lleoliad rhywogaethau estron goresgynnol sydd wedi ennill eu plwyf yn yr EMS, y mathau o lwybrau posib ar gyfer lledaenu rhywogaethau o'r fath yn yr EMS a'r cyffiniau a sut y gallai defnydd hamdden a masnachol o'r aber ddylanwadu ar eu lledaeniad. Cefnogwyd hyn ymhellach gan draethawd ymchwil myfyriwr israddedig, a oedd yn darparu dealltwriaeth (wedi'i llywio gan ymatebion profforma gan Awdurdodau Perthnasol a data cyhoeddus) o'r llwybrau tebygol i rywogaethau estron goresgynnol gyrraedd yr EMS, drwy fodelau ffynhonnell-llwybr-derbynnydd, a sganio'r gorwel ar gyfer y dyfodol. Bydd adroddiad cryno'n cael ei lunio i gefnogi'r gwaith hwn ac mae is-grŵp penodol o aelodau ASERA wedi'i sefydlu i oruchwylio'r adolygiad.

Codi Ymwybyddiaeth, Cyfarfodydd ASERA ac Ymgysylltu Allanol

Mae'r Swyddog ASERA yn parhau i gefnogi'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol, gan hwyluso cyfarfodydd Gweithgor a Grŵp Rheoli ASERA, a threfnu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Tachwedd 2020).

Rydym wedi bod yn bresennol mewn llawer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn hefyd, yn hyrwyddo ein Canllawiau Arferion Da ar gyfer hamdden a rhannu gwaith ASERA.

Cynrychiolwyd ASERA gan y Swyddog ASERA ar Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG), gan sicrhau bod EMS trawsffiniol Aber Afon Hafren wedi'i ystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig ag amgylchedd morol Cymru a Lloegr.

I gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau ASERA, cysylltwch â Katie Havard-Smith ar Havard-SmithK@cardiff.ac.uk.